**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Ein cyf: CG/PO/385/2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

15 fed Tachwedd 2023

Annwyl Huw

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2023 yn gofyn am ymatebion i gwestiynau mewn perthynas â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae fy atebion i'w gweld yn yr Atodiad canlynol.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

1. Mae'n wir o hyd nad oes mecanwaith wedi'i gytuno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydsyniad i Weinidogion y DU wneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

   Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gytundebau neu drefniadau lleol. Ceir trafodaethau technegol da a llif da o wybodaeth ar lefel swyddogion rhwng Llywodraeth Cymru a nifer o Adrannau'r DU, gan gynnwys Defra, ar ystod o agweddau ar weithredu Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

   Rydym yn parhau i fynegi ein siom wrth Weinidogion y DU wedi iddynt wrthod cynnwys gofynion statudol ar wyneb Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir i Weinidogion Llywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer offerynnau sy'n ymwneud â materion datganoledig.

   Tra oedd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn cael ei ddatblygu, nododd Gweinidogion Llywodraeth y DU nad ydynt fel arfer yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn y Bil mewn meysydd datganoledig heb gytundeb y llywodraeth ddatganoledig berthnasol (er y gwrthodwyd ein ceisiadau i hyn fod ar sail statudol).

   Ers pasio Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, rydym wedi ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth y DU ynghylch cynigion i ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Yn absenoldeb mecanwaith statudol, rydym yn pwyso am fecanwaith ffurfiol ar gyfer ymdrin â materion yn ymwneud â chydsyniad o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gan gynnwys canllawiau ar gyfer Llywodraeth y DU drwyddi draw i sicrhau bod y setliad datganoli yn cael ei barchu'n briodol ac yn llawn wrth weithredu'r Ddeddf.

   Yn y cyd-destun hwn, mae'r dull y mae Gweinidogion yn Defra wedi'i fabwysiadu fel y'i nodir yn eich llythyr yn gyson ag ymrwymiad anstatudol Llywodraeth y DU i geisio cytundeb gan lywodraethau datganoledig. Yn ei dro, mae hefyd yn dangos ymagwedd bragmatig Gweinidogion Cymru i ymgysylltu'n adeiladol ynghylch y materion hyn o ystyried yr effeithiau posibl mewn meysydd datganoledig.

   Pe bai unrhyw gytundebau ffurfiol yn cael eu llunio, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

2. Nid wyf yn credu bod yr hyn a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog yn gyfystyr â feto. Mae'n ymddangos mai'r broses y mae Defra yn ei dilyn yw cais safonol am gytundeb pan fo cynnig ar gyfer Offeryn Statudol gan San Steffan yn cynnwys Cymru yn ei gwmpas mewn perthynas â mater lle y mae cymhwysedd wedi'i

ddatganoli. Pe na bai Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad i Gymru gael ei chynnwys yn yr offeryn, byddem yn disgwyl i Defra beidio â gwneud hynny.

3. Mae'n resyn mawr nad oedd y Ddeddf yn cynnwys mecanwaith cydsyniad statudol, yn enwedig pan wnaethom ni hi'n glir i Weinidogion y DU mai dyna fyddai orau gennym ar sawl achlysur. Fodd bynnag, gan nad yw wedi'i gynnwys, nid yw'n ofynnol o dan y Ddeddf i Weinidogion y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer Offerynnau Statudol San Steffan a wneir o dan y Ddeddf mewn meysydd datganoledig. Serch hynny, er mwyn parchu'r setliad datganoli, ein barn ni o hyd yw y dylent wneud hynny, fel yn yr achos hwn a llawer o rai eraill yn achos Defra.

   Yn yr enghraifft hon, mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn gweithredu yn unol â'r ymrwymiadau anstatudol a wnaed ganddi yn absenoldeb gofyniad statudol neu gytundeb ffurfiol â'r Llywodraethau Datganoledig. Rydym yn parhau i gyfathrebu â Llywodraeth y DU ynghylch agweddau yn ymwneud â datganoli ar weithredu Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir a byddwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau o bwys.

4. Mae fy natganiadau yr ydych yn eu dyfynnu yn gyson â'i gilydd, gan eu bod yn berthnasol mewn cyfnodau gwahanol. Esboniais ar 2 Mehefin nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n sylweddol â Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei nodi yn Atodlen 1 cyn ei chynnwys yn y Bil yng nghyfnod Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 17 Mai. Ar ôl i Atodlen 1 gael ei chynnwys yn y Bil (ond nid cyn hynny), ystyriodd swyddogion Llywodraeth Cymru yr hyn a oedd wedi'i nodi ynddi a chynnal trafodaethau â swyddogion Llywodraeth y DU ynghylch materion perthnasol. Cynhaliwyd y broses olaf hon wrth i'r Bil gwblhau ei daith drwy San Steffan, cyn cael y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin.